Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Adborth am Gynllun Morol Cenedlaethol drafft Llywodraeth Cymru

Ebrill 2018

Argymhellion y Pwyllgor

Argymhelliad 1. Dylai'r Cynllun Morol Cenedlaethol drafft ('y Cynllun drafft') ddatgan uchelgais benodol i sicrhau bod ein hamgylchedd naturiol yn wydn, a dylai'r cynllun roi pwysau cyfartal i sicrhau gwydnwch amgylcheddol a hyrwyddo "twf glas" 4

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru gydnabod pwysigrwydd y sector twristiaeth a hamdden arfordirol a morol, a gwneud mwy i dynnu sylw at ei botensial i gefnogi twf glas yn y Cynllun drafft. 5

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru nodi diben ardaloedd adnoddau strategol yn y Cynllun drafft, a nodi rhywfaint o gysondeb yn y dull gweithredu mewn perthynas â hwy. Dylai'r Cynllun drafft nodi'n glir y bydd y datblygiad yn dilyn dull gweithredu ecosystemau ac o fewn terfynau amgylcheddol 5

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru geisio sefydlu panel cynghori trawsffiniol sy'n cynnwys y Sefydliad Rheoli Morol a Cyfoeth Naturiol Cymru i oruchwylio materion morol trawsffiniol. 5

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru ddangos sut y bydd y Cynllun drafft yn rhyngweithio â'r datganiadau ardal a gyflwynir o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. 6

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, Polisi Cynllunio Cymru a'r Cynllun drafft yn gweithio gyda'i gilydd. Dylai hyn gynnwys y broses o wneud penderfyniadau ar gyfer cytuno ar

ddatblygiadau ar dir a fydd yn effeithio ar yr amgylchedd morol a'r broses ymgynghori rhwng yr awdurdodau cynllunio perthnasol a Cyfoeth Naturiol Cymru.6

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu rhaglen casglu tystiolaeth, a gefnogir gan gyllideb benodol, i'w chyflwyno gan Cyfoeth Naturiol Cymru. 7

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r Cynllun drafft ar ôl pum mlynedd i ystyried yn llawn y newidiadau o ran polisi a deddfwriaeth o ganlyniad i Brexit. 8

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y caiff llwyddiant y cynllun ei fesur a'i fonitro. 9

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod canllawiau a hyfforddiant ar gael i helpu i gyflwyno'r cynllun. Dylai fod ar gael i'r holl randdeiliaid, gan gynnwys aelodau'r awdurdodau lleol 9

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i gostau a manteision penodi swyddogion gweithredu rhanbarthol i gynnig arweiniad a chyflwyno rhaglen weithredu. 9

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru geisio codi proffil y cynllun gyda'r cyhoedd yn ehangach ac edrych ar yr hyn y gellir ei wneud i sicrhau bod cynnwys y cynllun mor hygyrch â phosib. 9

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried llunio cynlluniau morol rhanbarthol. Dylai'r ymarfer hwn ystyried a yw'n ddefnyddiol canolbwyntio'n benodol ar ardaloedd defnydd uchel fel aberoedd ac arfordir Sir Benfro. 9

Y dull gweithredu

Cyfarfu'r Pwyllgor ag academyddion ac ymgynghorwyr ym maes cynllunio morol ar 1 Chwefror 2018. Cafodd yr aelodau y cyfle i ofyn cwestiynau am y cynllun a sut y mae'n cymharu â chynlluniau eraill ledled y byd. Rydym yn ddiolchgar i'r cyflwynwyr am roi'r trosolwg hwn.

Ar 14 Mawrth 2018, cynhaliodd y Pwyllgor weithdy rhanddeiliaid i drafod **Cynllun Morol Cenedlaethol drafft** Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn gyfle i drafod cynnwys y Cynllun a sut y caiff ei roi ar waith. Mae'r adroddiad byr hwn yn trafod y materion allweddol a godwyd gan y cyfranwyr i'r broses hon.

Y cefndir

1. Y tro cyntaf i Lywodraeth Cymru ymgynghori am ei chamau gweithredu ym maes cynllunio morol oedd 2010, a dywedodd yn 2011 ei bod yn gobeithio mabwysiadu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru erbyn diwedd 2013. Cyhoeddwyd drafft cychwynnol ym mis Tachwedd 2015, ynghyd â nifer o **sesiynau galw heibio i randdeiliaid**. Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddwyd fersiwn wedi'i diweddaru o'r **Datganiad Cyfranogiad y Cyhoedd**[1], yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i baratoi cynllun drafft er mwyn ymgynghori arno cyn pen blwyddyn.

2. Ar 7 Rhagfyr 2017, lansiodd Llywodraeth Cymru **ymgynghoriad** 16 wythnos am fersiwn ddrafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ('y Cynllun drafft'). Mae'r Cynllun drafft yn nodi polisi arfaethedig Llywodraeth Cymru dros gyfnod o 20 mlynedd ar gyfer datblygiad cynaliadwy ardal cynllunio morol Cymru yn achos rhanbarthau y glannau ac ar y môr. Mae nifer o **ddogfennau ategol** yn cyd-fynd â'r Cynllun drafft a'r ddogfen ymgynghori, gan gynnwys;

- Trosolwg o ddatblygu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru;
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd;
- Asesiad Cynaliadwyedd; ac
- Adolygiad o'r polisi dros dro ar garthu agregau morol.

3. Amcan cyffredinol y Cynllun drafft yw:

> "...hybu datblygu cynaliadwy yn ardal forol Cymru drwy gyfrannu at gyflawni nodau llesiant Cymru, gan sicrhau rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy drwy ystyried effeithiau cronnol yr holl ffyrdd o ddefnyddio'r amgylchedd morol."

[1]Mae Datganiad Cyfranogiad y Cyhoedd yn ofyniad cyfreithiol o dan Ddeddf y Môr, a rhaid ei gyhoeddi cyn dechrau'r broses cynllunio morol. Mae'n nodi sut y gall rhanddeiliaid gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r cynllun a sut y gellir gwneud sylwadau arno.

Cynnwys y Cynllun drafft

1. 1. Datblygu cynaliadwy

4. Roedd rhanddeiliaid yn y gweithdy yn pryderu bod tystiolaeth yn yr Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol yn dangos bod 29% o'n dyfroedd aberol ac arfordirol mewn statws ecolegol da neu well. Roeddent yn teimlo nad yw'r Cynllun drafft yn adlewyrchu'r angen i wella statws yr amgylchedd. Awgrymwyd nad yw'r Cynllun yn ymgorffori'n llawn yr egwyddorion Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol fel y'u nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

5. Roedd y rhanddeiliaid yn teimlo bod pwyslais ar dwf yn y Cynllun drafft ar draul yr angen i ddiogelu'r amgylchedd. O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol'), dylid rhoi pwysau cyfartal i ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Teimlwyd y dylid hyrwyddo'r cyfeiriadau at yr "egwyddor ragofalus" a'r nodau llesiant yng nghyflwyniad y Cynllun drafft drwyddi draw, gyda'r pwyslais eu bod yn sail ar gyfer pob penderfyniad datblygu.

6. Awgrymwyd y dylai'r Cynllun drafft, o ran gwydnwch systemau, ddangos uchelgais tebyg i'r ymrwymiad tuag at gyflawni "twf glas". Hoffai rhanddeiliaid weld diffiniad mwy eglur o "dwf glas". Roeddent hefyd yn teimlo y dylai'r Cynllun drafft nodi'n glir bod cyfyngiadau ar dwf ym mhob un o'r sectorau a nodwyd.

Argymhelliad 1. Dylai'r Cynllun Morol Cenedlaethol drafft ('y Cynllun drafft') ddatgan uchelgais benodol i sicrhau bod ein hamgylchedd naturiol yn wydn, a dylai'r cynllun roi pwysau cyfartal i sicrhau gwydnwch amgylcheddol a hyrwyddo "twf glas".

1. 2. Ardaloedd adnoddau strategol

7. Mae'r Cynllun drafft yn nodi dull gweithredu newydd sy'n defnyddio ardaloedd adnoddau strategol i gyflwyno gwaith mapio gofodol ym maes cynllunio morol. Dywedodd rhanddeiliaid fod mapio adnoddau mewn ffordd ofodol yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, roeddent yn teimlo bod ardaloedd adnoddau strategol yn canolbwyntio'n ormodol ar ddatblygiad yn y dyfodol. Roeddent yn galw am fwy o eglurder ynghylch diben yr ardaloedd adnoddau strategol, ac yn dweud y dylai pob ardal nodi'n glir ei bod yn ystyried bod yn ystyried cyfyngiadau amgylcheddol, fel Ardaloedd Gwarchodedig Morol. Awgrymodd rhanddeiliaid y dylai'r ardaloedd adnoddau strategol fod yn gyson â dull gweithredu gwasanaethau ecosystem.

8. Roedd pryder y gellid cymryd bod ardaloedd adnoddau strategol yn rhagdybiaeth o blaid gweithgaredd mewn ardal. Roedd y rhanddeiliaid yn galw am fwy o eglurder ynghylch diben ardaloedd adnoddau strategol, gan ddweud y dylent helpu i sganio'r gorwel, gydag iaith gyson drwyddi draw.

9. Roedd rhai rhanddeiliaid yn dadlau bod angen pennu'r sector twristiaeth fel ardal adnoddau strategol. Mae'r holl ardaloedd adnoddau strategol "wedi'u diogelu drwy bolisi i ryw raddau er mwyn cymell penderfyniadau strategol ar y defnydd ohonynt yn y dyfodol a rhwystro'r posibilrwydd o sterileiddio'r adnodd". Teimlwyd y byddai'r maes gweithgaredd hanfodol hwn ar gyfer economi Cymru yn elwa o gael asesiad o'i statws a dadansoddiad o'r ffordd y mae'n rhyngweithio â sectorau ac ecosystemau eraill ar hyn o bryd, a'r ffordd y gallai ryngweithio â nhw.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru gydnabod pwysigrwydd y sector twristiaeth a hamdden arfordirol a morol, a gwneud mwy i dynnu sylw at ei botensial i gefnogi twf glas yn y Cynllun drafft.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru nodi diben ardaloedd adnoddau strategol yn y Cynllun drafft, a nodi rhywfaint o gysondeb yn y dull gweithredu mewn perthynas â hwy. Dylai'r Cynllun drafft nodi'n glir y bydd y datblygiad yn dilyn dull gweithredu ecosystemau ac o fewn terfynau amgylcheddol

1. 3. Materion trawsffiniol

10. Gwnaeth rhanddeiliaid sylwadau ynghylch i ba raddau y mae angen ymdrin â materion trawsffiniol mewn partneriaeth â'r Sefydliad Rheoli Morol a bod angen i'r Cynllun drafft fod yn fwy eglur ynghylch sut y bydd hyn yn digwydd. Er enghraifft, dylid cydgysylltu'r cylchoedd adolygu ar gyfer cynlluniau trawsffiniol cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, yn enwedig cynlluniau morol de-orllewin a gogledd-ddwyrain Lloegr. Awgrymwyd y dylid ffurfio panel cynghori trawsffiniol i oruchwylio'r materion sy'n effeithio ar ardaloedd cyffredin fel aberoedd.

11. Awgrymwyd y byddai integreiddio Porth Cynllunio Morol Llywodraeth Cymru a phorth data y Sefydliad Rheoli Morol yn well yn arwain at broses well ar gyfer ystyried materion trawsffiniol.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru geisio sefydlu panel cynghori trawsffiniol sy'n cynnwys y Sefydliad Rheoli Morol a Cyfoeth Naturiol Cymru i oruchwylio materion morol trawsffiniol.

1. 4. Integreiddio â chynllunio daearol

12. Yn ein gweithdy, cafwyd galwadau am fwy o fanylion ynghylch sut y bydd disgwyl i brosesau cynllunio morol a daearol Cymru gyd-fynd â'i gilydd. Dywedodd rhanddeiliaid fod angen nodi sut y mae'r Cynllun drafft yn rhyngweithio â'r saith datganiad ardal sydd ar y gweill (chwe datganiad daearol ac un datganiad morol) sy'n deillio o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Roeddent hefyd yn galw am fanylion ynghylch pwy fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y cynlluniau hyn yn gydgysylltiedig.

13. Dywedodd y cyfranogwyr fod gwaith Llywodraeth Cymru i baratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, ac ymgynghoriad cyfredol Polisi Cynllunio Cymru, yn gyfle delfrydol i sicrhau bod cynllunio daearol a chynllunio morol yn cael eu hintegreiddio'n briodol, ar raddfa, gyda'r posibilrwydd y bydd Cymru'n arwain y ffordd drwy'r enghraifft hon o gynllunio cydgysylltiedig.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru ddangos sut y bydd y Cynllun drafft yn rhyngweithio â'r datganiadau ardal a gyflwynir o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, Polisi Cynllunio Cymru a'r Cynllun drafft yn gweithio gyda'i gilydd. Dylai hyn gynnwys y broses o wneud penderfyniadau ar gyfer cytuno ar ddatblygiadau ar dir a fydd yn effeithio ar yr amgylchedd morol a'r broses ymgynghori rhwng yr awdurdodau cynllunio perthnasol a Cyfoeth Naturiol Cymru.

1. 5. Defnyddio tystiolaeth

14. Tynnodd nifer sylweddol o randdeiliaid sylw at y ffaith bod y dystiolaeth ar gyfer y Cynllun drafft, sef Adroddiad Tystiolaeth Morol Cymru, bellach wedi dyddio, ers cyhoeddi'r adroddiad yn 2015. Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod bod yr adroddiad yn werthfawr wrth ddrafftio'r cynllun ac fe wnaethant alw ar Lywodraeth Cymru i ddangos sut y mae ystyriaethau allweddol ohono wedi dylanwadu ar y Cynllun drafft.

15. O ran cael tystiolaeth ddigonol ar gyfer y Cynllun drafft, cydnabu'r rhanddeiliaid na fydd byth yn sail tystiolaeth gyflawn ar gyfer gwneud penderfyniadau, ond fe wnaethant awgrymu na ddylai hyn atal datblygiad cyn belled â bod yr egwyddor ragofalus yn cael ei dilyn.

16. Dywedodd y cyfranogwyr hefyd y dylid defnyddio'r broses gynllunio i helpu i nodi bylchau cyfredol yn y dystiolaeth, a all wella'r cylch cynllunio nesaf. Er bod y dystiolaeth amgylcheddol yn hanfodol at ddibenion cynllunio, nodwyd bod

angen casglu gwybodaeth gymdeithasol ac economaidd hefyd i lywio penderfyniadau.

17. Dywedodd y rhanddeiliaid wrthym y dylai'r Cynllun drafft egluro pwy sy'n gyfrifol am gasglu data sylfaenol. Dywedodd datblygwyr eu bod yn teimlo y gofynnir iddynt (fel rhan o'u ceisiadau cynllunio a thrwyddedu) gasglu data y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am eu casglu. Dywedodd un o'n cyfranogwyr y gallai unrhyw ofyniad i gyhoeddi data danseilio cyfrinachedd masnachol.

18. Cydnabuwyd bod casglu data yn ddrud; awgrymwyd y dylid gwneud hyn mewn partneriaeth â grwpiau masnachol a chymunedol. Awgrymwyd y byddai "strategaeth ddata" o fudd i'r Cynllun drafft a'i ddefnyddwyr drwy annog a chydgysylltu gwaith casglu a rhannu data. Galwodd rhai cyfranogwyr am gyllideb benodedig i Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer casglu data, dadansoddi a sicrhau ansawdd. Awgrymwyd hefyd y gellid defnyddio'r cynllun i fynd i'r afael â bylchau perthnasol yn y dystiolaeth

> **Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu rhaglen casglu tystiolaeth, a gefnogir gan gyllideb benodol, i'w chyflwyno gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

1. 6. Cyfatebiaeth â pholisïau cartref a rhyngwladol

19. Gofynnodd rhanddeiliaid am dystiolaeth fwy eglur bod y ddogfen wedi'i hasesu yng ngoleuni Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol ac egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol. Yn benodol, roeddent yn cwestiynu'r canllawiau ar ynni adnewyddadwy morol, Polisi ELC_01, a sut y gall hyn gyd-fynd â nodau'r Ddeddf.

20. Pwysleisiodd rhanddeiliaid hefyd fod angen egluro pa rai o'r polisïau cyffredinol a thrawsbynciol sy'n argymhellion a pha rai sy'n rhwymedigaethau cyfreithiol, fel y rhai sy'n ymwneud ag Ardaloedd Gwarchodedig Morol.

21. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gynnal nod Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol i ennill "statws amgylcheddol da" ar gyfer dyfroedd morol erbyn 2020. Roedd y rhanddeiliaid yn falch bod yr ymrwymiad hwn yn parhau i fod yn y Cynllun drafft. Fodd bynnag, os nad yw Cymru yn bodloni ei rwymedigaethau o dan y Gyfarwyddeb, ni fydd modd troi at y Llys Ewropeaidd wedi i ni adael yr UE. Mynegwyd pryder y byddai'n gostus dwyn y Llywodraeth i gyfrif yn y dyfodol, ac felly na fyddai'r rhan fwyaf o randdeiliaid yn gallu gwneud hynny.

22. Mewn perthynas â pholisi Ewropeaidd, dywedodd rhanddeiliaid ei bod yn anodd prawfesur y Cynllun drafft at y dyfodol er mwyn ystyried Brexit, gan fod penderfyniadau ynghylch sut y byddwn yn gadael yn digwydd ar lefel y DU. Fodd bynnag, roeddent yn awgrymu y dylid adolygu ac ymgynghori ar y Cynllun drafft ar ôl pum mlynedd er mwyn ystyried y newidiadau deddfwriaethol a pholisi o ganlyniad i Brexit.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r Cynllun drafft ar ôl pum mlynedd i ystyried yn llawn y newidiadau o ran polisi a deddfwriaeth o ganlyniad i Brexit.

2. Monitro a gweithredu

23. Roedd awydd, yn ogystal â chodi proffil y Cynllun Morol Cenedlaethol terfynol, i ddweud wrth bob rhanddeiliad bod hyn yn newid mewn meddylfryd o ddull rheoleiddio i ddull gweithredu sy'n dilyn cynllun.

24. Dywedodd y rhanddeiliaid fod angen i'r Cynllun drafft ddangos sut y caiff prosesau cynllunio a gweithredu eu mesur a'u monitro. Mae'r Cynllun drafft yn nodi y “dylai cynigion ddangos sut maent yn cyfrannu at ddiogelu, adfer a/neu wella ecosystemau morol”, ond nid yw'n nodi sut y dylid mesur hyn.

25. Nid yw'r Cynllun drafft yn pennu targedau ar gyfer cynyddu gwerth cymdeithasol, datblygu economaidd na statws amgylcheddol. Dywedodd y rhanddeiliaid wrthym y dylid ceisio cofnodi “gwerth ychwanegol” y cynllun, hynny yw, y newidiadau ehangach sydd wedi deillio o'r broses gynllunio newydd hon.

26. Galwyd am hyfforddiant ynghylch defnyddio a gweithredu'r Cynllun drafft. Dylai'r hyfforddiant hwn fod ar gael yn eang, a hynny i gynllunwyr daearol yn ogystal ag i arbenigwyr morol. Dylai'r hyfforddiant hwn fod ar gael i gynghorwyr yn ogystal â swyddogion mewn awdurdodau lleol, a dylid ei hyrwyddo iddynt. Bydd darparu'r hyfforddiant hwn yn arwain at well dealltwriaeth o effaith penderfyniadau cynllunio daearol ar yr amgylchedd morol

27. Awgrymodd rhanddeiliaid y dylid llunio rhaglen weithredu, gyda chyllideb benodedig ar gyfer ei chyflwyno. Awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru ddilyn yr enghraifft yn Lloegr o gyflogi o leiaf ddau swyddog gweithredu llawn amser, gydag un yn y gogledd ac un yn y de. Argymhellwyd y dylent fod yn y swydd cyn mabwysiadu'r Cynllun drafft er mwyn codi ymwybyddiaeth o gynllunio morol a chynnal hyfforddiant.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y caiff llwyddiant y cynllun ei fesur a'i fonitro.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod canllawiau a hyfforddiant ar gael i helpu i gyflwyno'r cynllun. Dylai fod ar gael i'r holl randdeiliaid, gan gynnwys aelodau'r awdurdodau lleol.

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i gostau a manteision penodi swyddogion gweithredu rhanbarthol i gynnig arweiniad a chyflwyno rhaglen weithredu.

2. 1. Graddfa a chwmpas y Cynllun drafft

28. Dywedodd y rhanddeiliaid fod y Cynllun drafft yn ddogfen hir a chymhleth. Nodwyd y dylid gwneud mwy i sicrhau bod cynnwys y cynllun yn hygyrch i gynulleidfa ehangach. Awgrymwyd y dylid diwygio'r Cynllun drafft, neu fersiynau ohono yn y dyfodol, i fod yn ddogfen bolisi gyda'r canllawiau technegol angenrheidiol ynghlwm fel atodiadau.

29. Trafododd y cyfranogwyr rinweddau cynllunio morol rhanbarthol. Rhoddwyd yr enghraifft o gynllunio morol rhanbarthol yn yr Alban, a galwyd am broses debyg yng Nghymru. Awgrymwyd y byddai hyn yn cynnig ffordd o ganfod yr hyn sy'n bwysig i ardaloedd lleol a ffordd o ymgysylltu â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau mewn awdurdodau lleol.

30. Un awgrym oedd y dylid paratoi cynlluniau mwy manwl ar gyfer ardaloedd defnydd uchel fel aberoedd ac arfordir Sir Benfro.

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru geisio codi proffil y cynllun gyda'r cyhoedd yn ehangach ac edrych ar yr hyn y gellir ei wneud i sicrhau bod cynnwys y cynllun mor hygyrch â phosib.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried llunio cynlluniau morol rhanbarthol. Dylai'r ymarfer hwn ystyried a yw'n ddefnyddiol canolbwyntio'n benodol ar ardaloedd defnydd uchel fel aberoedd ac arfordir Sir Benfro.

Y camau nesaf

31. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r adroddiad byr hwn chwe wythnos ar ôl ei gyhoeddi. Caiff ei hymateb ei gyhoeddi ar ein gwefan.

32. Bydd y Pwyllgor yn dychwelyd at y pwnc hwn flwyddyn ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn i asesu'r cynnydd.

Atodiad: Y rhanddeiliaid

Cyfarfod y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig: 1 Chwefror 2018

Steve Fletcher	Rhaglen Forol y Cenhedloedd Unedig
Sue Kidd	Prifysgol Lerpwl
Dickon Howell	Howell Marine Consulting

Gweithdy'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig: 14 Mawrth 2018

Gill Bell	Y Gymdeithas Cadwraeth Forol
Clare Reed	Cyswllt Amgylchedd Cymru
Emily Williams	RSPB
Chris O'Brien	RSPB
Tony Thickett	Yr Arolygiaeth Gynllunio
Mick Green	Cadwraeth Morfilod a Dolffiniaid
Wendy Dodds	Tidal Lagoon Power
Mark Russell	Cymdeithas Cynhyrchwyr Agregau Morol Prydain
Kath Wellard	Atkins
Lucy Taylor	Partneriaeth Aber Hafren
Mike Jones	Asiantaeth yr Amgylchedd
Sue Burton	Swyddog Ardal Cadwraeth Arbennig Forol Sir Benfro
Roisin Willmott	Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol
Ben Williams	RWE Generation UK plc
John O'Connor	Ffederasiwn Pysgotwyr Môr Cymru
Keith Davies	Pennaeth Cynllunio, Tirwedd, Ynni a Newid Hinsawdd, Cyfoeth Naturiol Cymru
Rhoda Ballinger	Prifysgol Caerdydd
Alec Taylor	WWF
Becky Phillips	Y Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur